

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

23ain Chwefror 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher y 5ed o Fawrth 2025 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

.....

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 22ain o Ionawr – gweler yn atodol.

4. Materion yn codi,

a) Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd.

b) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy -derbyn y diweddaraf.

c) Blwch Post Cerist

d) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf.

- e) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – derbyn y diweddaraf.
- f) Archwiliad/gofal mynwentydd. Nodi asesiad risc wedi ei ddiweddarau ar ol cyfarfod 4.02.25 ym mynwent Llanymawddwy. Hefyd ystyried sefyllfa torri gwair mynwentydd yn 2025.
- g) Ystyried ymhellach llythyr Liz Saville Roberts AS dyddiedig 3.12.24, ac ymateb Age Cymru.
- h) Gohebiaeth 'Cyfeillion Llyn' - mabwysiadu polisi iaith – wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr

5. Materion Cynllunio

Canllawiau i Gynghorau Cymuned gan Adran Gynllunio y Parc Cenedlaethol – *wedi ei gylchredeg i bawb*

6. Materion Cyllid.

- a) Nodi balansau y cyfrifon.
- b) Anfonebau i'w talu;
 - Cydnabyddiaeth chwarter olaf y Clerc a HMRC. Hefyd costau y Clerc am 2024-25.
- c) Ceisiadau am arian
 - Ambiwlans Awyr Cymru (ers cyfarfod diwethaf)
 - Yr Urdd – Cronfa Cyfle i bawb 2024-25 (ers cyfarfod diwethaf)
 - Clybiau Ffermwyr Ieuaic Meirionnydd

7. Gohebiaeth

- Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru
- Penodiad Archwilydd Mewnol/ Llythyr ymrwymo - cyfrifon 2024-25
- Hysbysiad yn cadarnhau erthygl 4 gan y Parc Cenedlaethol.
- Llythyr Sian Gwenllian AS yn ceisio cefnogaeth i gael Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

8. Unrhyw fater arall